# Adroddiad Gwerthuso Digwyddiad Ymgysylltu Rheolwyr Pobl

## Mawrth 2026



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys

Cyflwyniad .......... 3
Presenoldeb .......... 4
Ffurflenni Gwerthuso .......... 5
Adborth Ansoddol .......... 6
Awgrymiadau ar gyfer Gwella .......... 7
Y Camau Nesaf .......... 8

# Cyflwyniad

Cynhaliwyd y Digwyddiad Ymgysylltu â Rheolwyr Pobl yn Theatr y Ffwrnes, Llanelli, ar 24 Mawrth 2026, gan ddod â rheolwyr o bob rhan o'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai ynghyd ar gyfer diwrnod o ddysgu, myfyrio a chysylltu. Cafodd y digwyddiad ei gyflwyno dros ddwy sesiwn, gan roi cyfle gwerthfawr i gydweithwyr gyfarfod wyneb yn wyneb, clywed gan siaradwyr arbenigol ac ymgysylltu â blaenoriaethau allweddol y sefydliad.

Cynhaliwyd Sioe Deithiol Gorfforaethol yn y cyntedd, gan roi mynediad uniongyrchol i reolwyr at amrywiaeth o dimau corfforaethol a gwasanaethau cymorth. Roedd yr ardal hon yn cynnwys wyth stondin yn cynnig gwybodaeth, adnoddau a chanllawiau ymarferol i helpu staff i ddeall yn well y cymorth sydd ar gael iddynt yn broffesiynol ac yn bersonol. Roedd y stondinau yn cynnwys:

- Dysgu a Datblygu
- Gwasanaethau TGCh
- Tîm Trawsnewid
- Pensiynau Dyfed
- Tîm Newid Hinsawdd a Thrawsnewid Ynni
- Tîm yr Amgylchedd Naturiol
- Cynllun Ildio Cyflog (Car)/Cynllun Beicio i'r Gwaith
- Buddion Staff/Adnoddau Dynol/Iechyd a Llesiant

Roedd y digwyddiad hwn hefyd yn garreg filltir i'r Cyfarwyddwr newydd, Darren Mutter, gan ei fod yn gyfle cyntaf iddo gyflwyno ei hun i'r gyfarwyddiaeth, gan gynnwys rheolwyr y Gwasanaethau Plant a oedd yn mynychu digwyddiad ar draws y gyfarwyddiaeth am y tro cyntaf ers ymuno â'r adran.

Roedd y diwrnod yn cynnwys cyfres o gyflwyniadau dylanwadol a diddorol. Roedd hyn yn cynnwys sesiwn gan Donna Sharland o Autside Education ar niwroamrywiaeth ac eithafiaeth, gan ddarparu mewnwelediad i adnabod a chefnogi unigolion niwroamrywiol tra hefyd yn deall risgiau ehangach.Rhoddodd Pippa Owens, Rheolwr Datrysiadau a Chwynion, drosolwg clir a llawn gwybodaeth o'r broses gŵyno, gan amlygu disgwyliadau, canllawiau sydd ar gael, a chymorth ymarferol i reolwyr.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr gyflwyniad personol a phwerus: *Iechyd Meddwl, Llesiant ac Arwain: Persbectif Profiad Byw*. Pwysleisiodd ei fyfyrdodau gonest ar brofiadau bywyd, arweinyddiaeth a bregusrwydd bwysigrwydd meithrin diwylliant lle mae cydweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac mae llesiant yn flaenoriaeth.

Daeth y digwyddiad i ben gyda gweithgaredd ysgafn "Taflu Ceiniog" dan arweiniad Jayne Thomas, gyda gwobr i'r un olaf ar ei draed ym mhob sesiwn.

## Presenoldeb

Daeth cyfanswm o **183 o reolwyr** i'r digwyddiad ar draws y ddwy sesiwn, gan ddangos lefel uchel o ymgysylltiad ar draws y gyfarwyddiaeth. Daeth nifer dda o bob adran.

**Dadansoddiad yn ôl Adran:**

| | AM | PM | Cyfanswm a oedd yn bresennol o bob adran |
|---|---|---|---|
| Plant a Theuluoedd | 15 | 30 | 45 |
| Comisiynu a Chymorth Busnes | 11 | 9 | 20 |
| Tai | 30 | 16 | 46 |
| Gwasanaethau Integredig | 16 | 7 | 23 |
| Gofal Cymdeithasol Oedolion | 22 | 21 | 43 |
| Perfformiad a Thrawsnewid Digidol | 3 | 1 | 4 |
| Partneriaeth Ranbarthol | / | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **97** | **86** | **183** |

.

## Ffurflenni Gwerthuso

Daeth cyfanswm o **157 o ffurflenni gwerthuso** i law, gan gynrychioli cyfradd ymateb gref ar draws y ddwy sesiwn:




Gofynnwyd i'r mynychwyr roi sgôr ar y digwyddiad rhwng 1 a 10 (1 = gwael, 10 = rhagorol). Mae dadansoddiad o'r ymatebion a gyflwynwyd i'w weld isod ac mae wedi'i seilio ar sgorio NPS.

| Sgoriau | Nifer yr ymatebion fesul sgôr Sesiwn y Bore | Nifer yr ymatebion fesul sgôr Sesiwn y Prynhawn | Cyfanswm yr Ymatebion | Canran yr ymatebion | |
|---|---|---|---|---|---|
| **1-5** | 6 | 1 | 7 | 4% | **Gwrthwynebwyr** |
| **6** | 1 | 1 | 2 | 1% | |
| **7** | 5 | 3 | 8 | 5% | **Niwtralwyr** |
| **8** | 19 | 10 | 29 | 18% | |
| **9** | 20 | 18 | 38 | 24% | **Hyrwyddwyr** |
| **10** | 37 | 36 | 73 | 48% | |
| | **88** | **69** | **157** | | |

**Nifer yr Hyrwyddwyr % – Nifer yr Aseswyr % = Sgôr NPS**
**72% - 5% = 67**

**Y sgôr cyffredinol NPS oedd**
**65**

Felly y sgôr NPS gyffredinol oedd 65, sy'n golygu bod y digwyddiad yn y categori **"Gwych".**

Roedd y ddwy sesiwn yn dilyn patrymau tebyg o ran adborth cadarnhaol a sgoriau uchel.

Mae'r dadansoddiad o'r adborth yn dangos ymateb cryf a chadarnhaol ar draws pob adran, gyda'r mwyafrif o fynychwyr yn cael eu dosbarthu fel ***Hyrwyddwyr***. O blith cyfanswm yr ymatebion:

- Roedd 111 o ymatebwyr (72%) yn Hyrwyddwyr, gan roi sgoriau o 9 neu 10

- Roedd 37 o ymatebwyr (23%) yn Niwtralwyr, gan roi sgoriau o 7 neu 8
- Dim ond 9 ymatebydd (5%) oedd yn Wrthwynebwyr, gan roi sgoriau rhwng 1 a 6

**Isod ceir dadansoddiad o'r sgoriau a roddwyd fesul adran:**

| | Plant a Theuluoedd | Comisiynu a Chymorth Busnes | Tai | Gwasanaethau Integredig | Gofal Cymdeithasol Oedolion | Perfformiad a Thrawsnewid Digidol | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwrthwynebwyr | 2 | 1 | 6 | / | / | / | / | **9** |
| Niwtralwyr | 8 | 7 | 8 | 5 | 8 | 1 | / | **37** |
| Hyrwyddwyr | 25 | 7 | 26 | 17 | 33 | 2 | 1 | **111** |

- Roedd gan Ofal Cymdeithasol Oedolion y nifer uchaf o Hyrwyddwyr (33), gan ddangos lefelau cyson o ymgysylltiad a boddhad o fewn y grŵp hwn.
- Dangosodd Plant a Theuluoedd adborth cadarnhaol iawn hefyd ar y cyfan, gyda 25 Hyrwyddwr o gymharu â dim ond 2 Wrthwynebwr.
- Roedd Tai yn dangos darlun mwy cymysg, gyda 26 Hyrwyddwr ond hefyd 6 Grthwynebwr, gan nodi ystod ehangach o brofiadau o fewn yr adran hon.
- Cofnododd Gwasanaethau Integredig, Perfformiad a Thrawsnewid Digidol a'r categorïau eraill adborth eithriadol o gadarnhaol heb unrhyw Wrthwynebwyr o gwbl.
- Dangosodd Cymorth Busnes a Chomisiynu adborth cytbwys ond cadarnhaol, gyda 7 Hyrwyddwr, 7 Niwtralwr a dim ond 1 Gwrthwynebwr.

Mae'r canlyniadau cyfunol yn dangos bod y digwyddiad yn llwyddiannus, gydag ymatebion cadarnhaol ar draws pob adran.

## Adborth Ansoddol

Cafwyd 142 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gan nodi bod y digwyddiad yn hynod addysgiadol, yn ymgysylltiol ac yn effeithiol. Rhoddwyd canmoliaeth gref i'r siaradwyr ar niwroamrywiaeth, cwynion ac yn enwedig y sesiwn gan y Cyfarwyddwr ar iechyd meddwl a'i brofiad byw.

Roedd y mynychwyr yn gwerthfawrogi gonestrwydd, perthnasedd a natur ysgogol y cyflwyniadau, gan nodi bod y cynnwys wedi eu helpu i fyfyrio ar eu rolau, eu harweinyddiaeth a'u llesiant.

Roedd llawer yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth o bynciau a'r cyfle i gysylltu â chydweithwyr. Nododd nifer fach fod y sesiynau'n hirfaith, yn drwm, neu'n brin o ryngweithio, ac roedd rhai yn teimlo bod elfennau penodol yn llai perthnasol i'w maes gwasanaeth.

Ar y cyfan, roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn ac yn tynnu sylw at werth arweinyddiaeth agored sy'n canolbwyntio ar bobl a datblygiad proffesiynol ystyrlon.

✅ **Adborth cadarnhaol:**

✓ "Ysbrydoledig ac yn union y math o ddiwylliant rwyf am weithio ynddo"
✓ "Braf cyfarfod â chydweithwyr eraill, roedd y pynciau'n berthnasol ac yn ystyrlon."
✓ "Roedd hi'n wych clywed barn y staff o'r holiaduron, roedd yn amlwg ein bod i gyd wedi cael ein clywed, ac roedd hynny'n thema glir gan bob siaradwr. Cyfathrebu yw ein cryfder – da iawn Cyngor Sir Gâr"
✓ "Fe wnes i fwynhau pob siaradwr yn ystod y digwyddiad yn fawr. Nid oedd yn ormod ac roedd digon i'w gymryd i mewn. Fe wnes i wir fwynhau sgwrs Donna gan fod gennyf gefndir o anawsterau dysgu—roedd yn ddiddorol iawn. Roedd cyflwyniad Darren yn bwerus iawn ac yn cyfleu neges gref iawn, wedi'i gyflwyno'n arbennig o dda"
✓ "Efallai'r digwyddiad corfforaethol mwyaf perthnasol a dilys yr wyf erioed wedi'i fynychu. Gwybodaethol ac mor bwysig. Cefais fy nghyfareddu'n fawr ac yn teimlo bod hyn yn rhywbeth yr oedd angen i mi ei glywed."

❌ **Adborth llai cadarnhaol:**

✗ "Yn bersonol, rwy'n meddwl nad oedd rhai agweddau ar y diwrnod yn berthnasol i mi"
✗ "Nid oedd y digwyddiad yr hyn yr oeddwn yn disgwyl gan nad oeddwn wedi gweld agenda cyn cyrraedd"

## Awgrymiadau ar gyfer Gwella

- Mae'r adborth ar welliannau yn canolbwyntio'n bennaf ar ryngweithio, trefniadau eistedd a hygyrchedd.
- Gofynnodd llawer o fynychwyr am fwy o gyfleoedd i ymgysylltu, megis mwy o drafodaethau bwrdd, sesiynau byrrach neu seibiannau rhwng pynciau trymach. Crybwyllwyd trefniadau eistedd yn aml, gyda rhai yn ffafrio dewis eu seddi eu hunain yn hytrach na chael eu dyrannu i fyrddau.
- Canolbwyntiodd nifer o awgrymiadau ar wneud y sesiynau'n fwy deinamig, gan gynnwys lleihau PowerPoint, ychwanegu fideos, astudiaethau achos neu arddulliau cyflwyno mwy amrywiol. Gofynnodd rhai cyfranogwyr hefyd am well aliniad y cynnwys ar draws adrannau, yn enwedig i sicrhau bod Tai a Gofal Cymdeithasol yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli'n gyfartal.
- Roedd galwadau hefyd am fwy o amser rhwydweithio, trafodaethau parhaus ar les, digwyddiadau rheolaidd a phynciau fel materion staffio, pwysau llwyth gwaith, ffiniau arweinyddiaeth, cyllidebau adrannol a rhannu arfer gorau.
- Tynnodd nifer llai sylw at ystyriaethau ymarferol, gan gynnwys cynllun yr ystafell, fformatau sy'n gyfeillgar i niwroamrywiaeth, gwell goleuo a threfniadau eistedd, ynghyd â darparu opsiynau di-glwten.
- Pwysleisiodd llawer o sylwadau hefyd pa mor werthfawr oedd y digwyddiad iddynt, gan ofyn yn syml am fwy o'r un fath yn y dyfodol.

## Y Camau Nesaf

- Llwytho cynnwys ac adborth y digwyddiad i dudalennau’r Fewnrwyd.
- Defnyddio’r adborth i lywio fformat a chynnwys digwyddiadau ymgysylltu Rheolwyr Pobl yn y dyfodol.
- Ystyried rhyngweithio a chydbwysedd y cynnwys fel egwyddorion allweddol wrth symud ymlaen.